**Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau**
**Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth**
**Chwefror 2025**

# Troseddeg

Amser: 1.5 awr (90 munud)

**Atebwch Unrhyw 3 Chwestiwn**

**Damcaniaethau am Droseddu**

'*Mae troseddu yn deillio o ddewisiadau unigol a dylanwad y gymdeithas.*'

Trafodwch y datganiad hwn gan gyfeirio at ddamcaniaethau clasurol a chymdeithasegol am droseddu.

1. **Trosedd a Chymdeithas**
   Ystyriwch y ffyrdd y gallai anghydraddoldeb cymdeithasol gyfrannu at ymddygiad troseddol. Yn eich ateb dylech hefyd ystyried camau y gallai'r wladwriaeth eu cymryd i liniaru'r ffactorau hyn.

2. **Plismona a Chyfiawnder**
   Trafodwch pa mor effeithiol yw strategaethau plismona yn y gymuned o ran lleihau cyfraddau troseddu a meithrin ymddiriedaeth rhwng yr heddlu a'r cymunedau y maent yn eu diogelu. Dylech hefyd ystyried yr heriau a wynebir wrth weithredu'r strategaethau hyn.

3. **Dioddefoleg**
   Dadansoddwch y rhan y mae dioddefoleg yn ei chwarae yn ein dealltwriaeth o droseddu. Sut y gall canolbwyntio ar safbwynt y dioddefwr gyfrannu at wella polisïau ac arferion cyfiawnder troseddol?

4. **Cosbi ac Adsefydlu**
   Cymharwch rinweddau cyfiawnder dialgar a chyfiawnder adsefydlol fel ymatebion i ymddygiad troseddol. Pa ddull yw'r un mwyaf effeithiol wrth leihau aildroseddu yn eich barn chi?

5. **Y Cyfryngau a Chanfyddiadau o Droseddu**
   Cloriannwch y rhan y mae'r cyfryngau torfol yn ei chwarae wrth ffurfio canfyddiadau'r cyhoedd o droseddu. I ba raddau y mae portreadau yn y cyfryngau yn effeithio ar ofnau'r gymdeithas a'r llunio polisïau sy'n deillio o hynny?